
**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG,
7 MAWRTH, 2012**

YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd Ieuan Roberts, (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths a Trevor Roberts, (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Robert Owen (Buddiannau Masnachol), Dr John Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), a Peter Lunt Williams (Sefydliad y Bad Achub),

HEFYD YN BRESENNOL: Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), David O'Neill (Harbwr Feistr) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Dyfed Edwards, (Cadeirydd Bwrdd Cyngor Gwynedd), Alwyn Gruffydd, (Cyngor Gwynedd), David Eastwood, (Buddiannau'r Harbwr) a David McLean, (Buddiannau Perchnogion Tir).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2011, fel rhai cywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Mewn ymateb i ymholiad nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:

- Bod ymholiadau pellach yn cael eu gwneud ynglŷn â'r gwaith o glirio deunydd sy'n parhau yn yr afon yn dilyn gwaith o godi'r wal ger Llyn Bach. Bu'n trafod y mater hefo Uned Ymgynghori'r Cyngor a phwysleisiodd y swyddog y byddai blaenoriaeth yn cael ei roi i beidio colli angorfeydd;
- Bod trafodaethau'n parhau parthed taliadau blynyddol i'r Goron a bod y bwriad i godi swm am bob angorfa yn achos pryder oherwydd mai'r cwsmeriaid unigol fyddai'n ysgwyddo unrhyw gost ychwanegol yn y pen draw;
- Bod trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â hawl tramwy gyda llongau i'r Pen Cei., ond 'roedd y Swyddog a'r aelodau o'r farn na fyddai hyn yn ymarferol oherwydd nifer angorfeydd fyddai angen eu gollwng yn y sianel fordwyo.

5. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

a) Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a chyfeiriodd at y materion canlynol yn unigol:

- Ffioedd a Thaliadau
- Cyllidebau
- Mordwyo/Angorfeydd
- Staff
- Gwelliannau

Ffioedd a Thaliadau

b) Cadarnhaodd y Swyddog fod ffioedd a thaliadau blwyddyn ariannol 2012/13 wedi eu cytuno gyda'r Arweinydd Portffolio a bod y cleientiaid wedi eu hysbysu o'r holl ddiwygiadau.

c) Arweiniodd y Swyddog yr aelodau drwy'r adroddiad gan ymhelaethu ar y prif bwyntiau canlynol:

- Bod y cynnydd mewn chwyddiant ar gyfer Harbwr Porthmadog yn 2012/13 yn debygol o fod yn 3.25%;
- Bydd y ffioedd a'r taliadau yn dangos cynnydd o 3.5% ar gyfer pob cwch sy'n angori dan awdurdod Harbwr Porthmadog yn 2012/13.
- Bydd hyn yn golygu cynnydd o 3.5% ar gyfer pob medr cyn belled ag y mae tollau harbwr yn y cwestiwn, yn ogystal â chynnydd o 3.5% ar ffi angorfa;
- Bod bwriad i ystyried y posibilrwydd o beidio codi chwyddiant ar y tollau harbwr;
- Bod cynnydd mewn ffioedd a thaliadau yn destun pryder oherwydd y bydd yn effeithio ar y defnyddwyr eu hunain yn y pen draw;
- Bod angen sicrhau na fydd unrhyw gynnydd yn effeithio'n andwyol ar incwm yr harbwr gyda pherchnogion cychod yn dewis peidio angori mewn unrhyw harbwr yng Ngwynedd;
- Yn sgil cynnydd o £2,450, bydd y targed incwm i Harbwr Porthmadog ar gyfer 2012/13 yn £77,910;
- Bydd ffioedd lansio yn aros yn sefydlog ar £12 yr un ar gyfer lansio dyddiol

ch) Pwysleisiodd y Swyddog y byddai angen canfod a thrafod mesurau ac arbedion effeithlonrwydd pellach gyda staff pe byddai'r incwm yn lleihau ac yn methu cyrraedd y targed yn 2012/13. Nododd felly'r angen i ystyried camau arloesol er mwyn sicrhau bod y gwariant cyffredinol a'r cyllidebau incwm yn cyrraedd eu targedau heb gyfaddawdu ar safonau a diogelwch.

d) Esboniodd y swyddog ymhellach bod cynnydd yn nharged incwm cyffredinol yr Uned Forwrol ar gyfer 2012/13 yn £97,590. Mae hyn yn gosod targed incwm yr Uned Forwrol, heb gynnwys y parciau gwledig, ar £2,467,550 yn 2012/13. Pwysleisiodd fod y targed yn hynod heriol yn yr hinsawdd economaidd fregus sydd ohoni.

dd) Nododd y Swyddog ymhellach fod y defnydd a wneir o'r pontwns yn galonogol a bod y gwaith a wnaed ym Mhorthmadog wedi ysbrydoli datblygiadau tebyg yn Abermaw. Pwysleisiodd fod llawer o'r llwyddiant yn deillio o ymdrechion gwirfoddol a bod hyn yn cael ei werthfawrogi.

Cyllidebau

a) £75,460 oedd targed incwm Harbwr Porthmadog ar gyfer 2011/12 ac yr oedd cyfanswm incwm a gynhyrchwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2011 yn £70,227. 'Roedd hyn o'i gymharu â chreu incwm o £71,281 yn yr un cyfnod y llynedd. Gan na ellir disgwyl incwm sylweddol yn ystod Chwefror a Mawrth, mae'n annhebygol y bydd y targed incwm yn cyrraedd y targed gofynnol yn y flwyddyn ariannol hon.

Ychwanegodd y swyddog fod disgwyl i statws cyllideb gyffredinol Harbwr Porthmadog ar 31 Mawrth 2010 fod yn dangos gweddill o £11,000. Daw hyn yn sgil arbedion yng nghyllideb cynnal a chadw angorfeydd a nododd y swyddog fod arbedion o'r fath ym Mhorthmadog yn hanfodol er mwyn sicrhau bod diffyg cyffredinol yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig o fewn y targed.

O safbwynt y Traethau, rhagwelir y bydd y cyfanswm oddeutu £10,000 yn uwch na'r targed incwm.

Pwysleisiodd fod blwyddyn heriol iawn yn wynebu'r Uned Forwrol, yn enwedig yn yr harbyrau sy'n methu cyfarfod targedau incwm a'r targedau gwariant dro ar ôl tro. Cyfeiriodd at y gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb sydd ar gael i Gyngor Gwynedd a'r arbedion sydd angen eu hadnabod a phwysleisiodd fod hyn yn tanlinellu'r angen i oresgyn gorwariant a diffyg mewn incwm.

Mordwyo/Angorfeydd

a) Adroddodd y Swyddog ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed yr angorfeydd a Chymhorthion Mordwyo gan nodi :

- Bod y rhan fwyaf o'r Cymhorthion Mordwyo sy'n arwain i harbwr Porthmadog wedi aros yn eu lle er gwaethaf gwyntoedd eithriadol gryf yn ystod yr Hydref a dechrau'r gaeaf.
- Bod bwriad i oleuo'r cyfan o'r cymhorthion mordwyo'n barhaol;
- Bod cyfanswm o 10 Rhybudd i Forwyr wedi'u cyflwyno ar gyfer Porthmadog yn 2012 hyd yma;
- Bod buddsoddiad blaenorol yn golygu na fydd angen archwilio'r gadwyn ddaear cyn dechrau tymor hwyllo 2012;
- Bydd yr holl angorfeydd ar flaendraeth Borth y Gest yn cael eu harchwilio gan yr Harbwr Feistr;
- Fel yn 2011 ni fydd angen symud unrhyw un o'r angorfeydd ar y blaendraeth yma cyn y tymor hwyllo;
- Bod bwriad i godi hen flociau angorfeydd sy'n ymddangos ym Morth y Gest.

b) Cyfeiriwyd yn benodol at y posibilrwydd o beidio cadw bwi Rhif 1 fel rhan o'r system cymhorthion mordwyo ym Mhorthmadog. Nododd y Swyddog bod y bwi yma, yn ogystal â bwi rhif 2 mewn dŵr diogel. Awgrymwyd felly y gellid tynnu rhif 1 o'r system .

c) Mewn ymateb, nododd aelod fod hyn yn dibynnu ar sut fyddai'r newid yn effeithio ar y pellter rhwng bwiau. Pe byddai'n bosib gweld y naill fwi o'r llall, hyd yn oed mewn tywydd niwlog, nid oedd ganddo wrthwynebiad i'r syniad.

ch) Awgrymodd aelod arall y gellid symud y bwi tramwy i safle presennol bwi Rhif 1. Esboniwyd y byddai angen cael hawl gan Dŷ'r Drindod i wneud hyn yn ogystal ag ystyried pellter y bwi tramwy oddi wrth y draethell.

PENDERFYNWYD y dylai'r swyddogion ystyried sylwadau a wnaed gan aelodau a chymryd camau priodol ynglŷn â safleoedd a gostwng nifer y bwiau.

Staff

a) Esboniodd y Swyddog na fydd swydd y Cynorthwydd Harbwr ar gyfer harbyrau Porthmadog a Phwllheli yn cael ei hysbysebu ar gyfer y tymor nesaf gan ei bod yn ofynnol adnabod arbedion effeithlonrwydd o fewn y gyllideb. Yn ogystal mae'n ofynnol adnabod blaenoriaethau gwaith.

Bydd rota waith y Swyddog Morwrol Harbyrau a'r Swyddog Morwrol Traethau'n cael ei haddasu er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ddigonol ar gael i harbwr Porthmadog a harbwr Pwllheli.

b) Bydd swyddogion traeth yn cael eu penodi i reoli traeth Morfa Bychan, a bydd y swyddi hyn, yn gyffredinol, yn cychwyn ar 1 Ebrill er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth

ddigonol ar y traeth yn ystod cyfnod gwyliau'r Pasg. Rhoddir adnoddau ychwanegol ar gyfer y Traeth yn ystod cyfnod prysuraf yr haf.

Pwysleisiodd y Swyddog y bydd yn anodd dygymod gyda thoriadau, ac mai'r brif flaenoriaeth fydd gofalu am ddiogelwch defnyddwyr a'r cyhoedd.

c) Diolchodd y Swyddog am ymrwymiad y staff ac ategwyd ei sylwadau gan aelod a gyfeiriodd at waith cydwybodol yr Harbwr Feistr a'r holl staff a'r modd y maent yn ymateb yn ddiymdroi i bob achos a'r modd y maent yn ymdrin â phobl.

Gwelliannau

a) Adroddodd y swyddog ar y gwelliannau canlynol a wnaed ym Mhorthmadog yn ystod diwedd 2011 a rhan gynharaf 2012:

- Ail wynebu ochr y cei;
- Rhoi wyneb ar balmant yr ardal barcio
- Rac cychod gweini
- Cynnal a chadw tir a chyfleuster mwynderol Borth y Gest

Yn ogystal, gwnaed trefniadau ar gyfer cynllun gwerth £200,000 i ddatblygu toiled newydd ym Morfa Bychan. Cafwyd grant o 42% o'r Gronfa Cydgyfeiriant tuag at y datblygiad. Bydd yr adeilad presennol yn cael ei ddymchwel ym mis Medi a'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn 1 Ebrill 2013.

Croesawyd penderfyniad i ymestyn yr ardal sy'n gwahardd cerbydau rhag mynd at y twyni ym Morfa Bychan. Cyfeiriodd y Swyddog at lwyddiant gwaith a wnaed eisoes a chafwyd grant o £5,000 gan y Cyngor Cefn Gwlad tuag ar y cynllun diweddaraf.

b) Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o gychwyn cynllun tymor hir fyddai'n cynnwys gosod stanciau a gosod pontwns arnynt ym Mhorthmadog.

c) Ychwanegodd y Swyddog fod ystyriaeth yn cael ei roi i godi tâl am gael defnyddio'r maes parcio tu ôl i swyddfa'r harbwr. Byddai unrhyw incwm fyddai'n deillio o hyn yn cyfrannu tuag at darged incwm harbwr Porthmadog.

Cadarnhawyd mai'r Harbwr Feistr fyddai'n casglu'r arian ac na fyddai'n golygu cost oherwydd bod peiriant ar gael.

PENDERFYNWYD:

a) Cytuno i gychwyn y cynllun ar 1 Ebrill, 2012 gan godi cost o £4 y dydd.

b) Y dylid ystyried y posibilrwydd o ganiatáu parcio di-dâl am gyfnodau byr ar gyfer rhai fyddai'n dymuno talu tâl cofrestru cychod

Ysgraff

Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Swyddog fod unigolyn yn bwriadu rhedeg gwasanaeth ysgraff o Borthmadog yn ystod y tymor gwyliau.

Diolch

Nododd y Cadeirydd na fydd yn ymgeisio yn yr etholiad ym mis Mai a diolchodd i'r swyddogion a'r aelodau am eu cydweithrediad gydol tymor o 13 mlynedd.

Mewn ymateb diolchodd y Swyddog i'r cadeirydd am ei gefnogaeth gydol y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddo i'r dyfodol.